

Cyngor Cymuned Pentir
Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 12fed o Ebrill 2018
yn Y Swyddfa, Parc Menai am 7pm.

Agenda

Gweddi

Presennol / Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cofnodion 8fed o Fawrth 2018

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid

- Adroddiad ariannol
- Ceisiadau Ad 137
- Taliadau Costau y Clerc - Costau Cyfrifwyr
- Adroddiad Ariannol 2017-18
 - Cyfrifon
 - Cyfrifwyr
- Archwilwyr mewnnol

Is Bwyllgorau Ei strwythur

Adolygu Rheolau sefydlog - **Dyfyniad o gofnodion Cyfarfod Blynyddol dderbynwyd Mai 2017**
Cynigwyd gan LAJ bod DJM yn parhau am flwyddyn ychwanegol – eilwyd gan TA. Cytunodd DJM felly i barhau yn y gadair am flwyddyn ychwanegol. Nodwyd bod angen adolygu'r Rheolau Sefydlog a chael trafodaeth ynglyn a chyfnod yn y gadair. Nodwyd bod rhai aelodau o'r farn bod cyfnod o ddwy flynedd yn well na blwyddyn gan fod hynny'n rhoi'r cyfle i'r sawl sy'n y gadair i weld ffrwyth ei waith. Cytuniwyd i drafod ymhellach mewn cyfarfod arferol o'r cyngor.

Ceisiadau Cynllunio diweddard ardal Pentir

- C18/0243/25/LL Cais codi dau dy arwahan gyda pharcio a gerddi cysylltiedig Goetre Uchaf Penrhosgarnedd LL57 2NT
- C18/0244/25/LL Cais codi chwech ty newydd 4 ty arwahan a 2 dy par gyda pharcio a gerddi cysylltiedig Goetre Uchaf Penrhosgarnedd LL57 2NT

Y Wefan Diweddariad

Materion y Clerc

- Gohebiaethau
 - Prydles Canolfan Penrhos
 - Cyfarfod a Gamlins
- Adroddiadau
 - Diweddariad ar goed fynwent yr eglwys

Materion y Cynghorwyr

Cyng Cynrig E Hughes a Jean Pierce	Biniau Halen a parcio ceir ardal Pentir
Cyng James Griffiths	Ysbyty Minffordd a Hendre Wen / Glanadda
Cyng Menna Baines	Biniau baw cwn / Glasinfryn a cysgodfan Cae Garnedd

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion Cyngor llawn gynhaliwyd Nos Iau 8^{fed} o Fawrth 2018 yn Parc Menai am 7pm

Presennol:

Y Cyng. R Jones, D W Jones, R G. Roberts, L James, J Pierce, B Jones, C Hughes, D Jones-Morris, M Baines, a T Anwyl-Williams
E Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau:

Y Cyng, H Griffiths a James Griffiths

Cadeirwyd ac offrymwyd gweddi gan Cyng Cynrig E Hughes.

Côd Ymddygiad

Atgoffwyd pawb o'n côd ymddygiad a'r angen i ddatgan buddiant os cyfyd yr angen Nodwyd a chofnodwyd fod Cyng Richard Jones yn drysorydd Canolfan Gymuned Penrhosgarnedd y Cyng M Baines yn gadeirydd y Ganolfan gan fod Prydles y Ganolfan honno ar yr Agenda Nodwyd fod Cyng T A Williams yn cynrychioli y Cyngor a Bwyllgor Rheoli y Ganolfan Nodwyd fod Cyng L A James yn cynrychioli y Cyngor ar fwrdd Llywodraethwyr Ysgol y Faenol

Cofnodion 8fed o Chwefror 2018

Cyng D Jones-Morris yn cynnig eu bod yn gofnod cywir a'r Cyng Dewi W Jones yn eilio

Materion yn codi o'r cofnodion

Hysbysfwrdd Ysbyty Gwynedd

Dim ymateb wedi bod **Awgrym dylid peny amser er cytuno na fyddai hynny'n hawdd ei reoli**

Y Wefan - Drafft wedi ei roi i fyny ag i'w chanmol ond yn dal ddim yn fyw

Safle bws Cae Garnedd – dim datblygiad

Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid

Gan fod yr Is-bwyllgor ond wedi cyfarfod y noson cynt nid oedd cofnodion llawn ar gael ond dosbarthwyd Adroddiad ariannol gyfredol oedd wedi ei darparu ar gyfer 28ain o Chwefror.

Nid oedd unrhyw gyfnewid arain wedi bod ers yr 28ain

Tra ymddengys fod £18,048.13 yn y banc £12,402.27 yw'r gwir ffigwr gan fod rhai sieciau heb eu cyflwyno

- Ceisiadau Ad 137 Cais Grwp Ioga Glasinfryn wedi ei ail-gyflwyno ac argymell cyfranu £300.00 iddynt
- Taliadau Argymhellwyd talu Cyngor Gwynedd am y torri gwair ychwanegol 17-18 D E Williams am osod cysgodfan Bws Rhydygroes a gosod Hysbysfyrddau Aelodaeth Unllais Cymru Gareth Hughes am drwsio to y Capel a mainc y Fynwen Cyflog Mis 12 Mawrth HMRC Mis 12 £90-80 E W Williams Gofalwraig Hydref 2017 i Mawrth 2018 Gareth Hughes Tynnu hysbysfwrdd Glasinfryn ei drwsio a'i osod yn porch y Capel

Is Bwyllgorau Ei strwythur Cafodd y mater yma ei ohirio eto oherwydd pethau pwysicach

Ceisiadau Cynllunio diweddar ardal Pentir

- C18/0086/25/TC Cais Defnydd Cyfreithlon lleoli carafan ar gyfer defnydd preswyl Coed Bryn Pwll Waen Wen LL57 4UF **Dim sylwadau**
- C18/0088/25/LL Cais ol-weithredol estynnu modurdy yn FFERM TYDDYN SYDNEY, TREBORTH, GWYNEDD, **Dim gwrthwynebiad**

Cais Trwyddedu

Hysbyseb o Gais Deddf Trwyddedu 2013 - Book People Bryn Derwen Parc Menai LL57 4FB

Dim sylw

Y Wefan Diweddariad ar y Wefan Delwedd wedi cadarnhau y byddai'r Wefan yn fyw dydd Llun 12fed o Fawrth

Penodi Cyd-lynydd y Wefan Diolchwyd i Lowri am ei gwaith hyd yma a gofyn iddi os oedd hi'n hapus i gyd-lynnu 'r gwaith hyd at ein Cyfarfod Blynyddol yn Mis Mai **Cytunodd i hynny**

Canolfan Penrhos/Ysgol Y Faenol

Cyng Richard Jones, Cyng Menna Baines a Cyng Lowri Ann James yn datgan buddiant.

Amlinnellodd y Cadeirydd gefndir y cynllun esbonwyd i griw o'r Cyngor fynychodd gyfarfod gynhalwyd yn Adeilad y Brifysgol yn ystod Chwefror ar wahoddiad aelod o Gabinet Cyngor Gwynedd Dafydd Meurig (Cofnodion Chwefror)

Fel rhan o ad-drefnu addysg gynradd ym Mangor 'roedd bwriad i ymestyn Ysgol Y Faenol yn sylweddol gyda'r niferoedd disgyblion yn codi i dros 300.

Fel bod modd ymdopi gyda'r cynnydd yn y nifer disgyblion, ag yn y nifer o geir fydd yn eu cludo yn ol a blaen, 'roedd Cyngor Gwynedd yn awyddus i ddefnyddio gofod y Ganolfan Gymunedol bresennol. Eu cais i Cyngor Cymuned Pentir, fel deiliaid Prydles y Ganolfan Gymunedol, oedd datblygu Ysgol Y Faenol yn ysgol gymunedol ble byddai rhan o'r ysgol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau cymunedol.

Rhoddwyd cyfle i bob Cyngorydd yn ei dro fynegu ei deimladau ynglyn a'r syniad.

Tra bod gwrthwynebiadau, ac amheuan ynglyn a'r holl beth daeth **cynnig gan Cyng DWJ 'ein bod mewn egwyddor yn trafod gyda Cyngor Gwynedd y posibilrwydd datblygu a sefydlu canolfan gymunedol ynglwm ag Ysgol Y Faenol'**

Eilwyd y cynnig gan y Cyng B J

Cafwyd pleidlais ar y cynnig gyda

4 o blaid 2 yn erbyn Cafodd y cynnig ei gario

Symudwyd ymlaen i ddewis Is bwyllgor fyddai yn ymweld ag Ysgol Gymunedol gyfagos

Dewiswyd Cyng Cynrig E Hughes (Cadeirydd) Cyng Dafydd Jones-Morris, Cyng Tudur Anwyl Williams Cyng Richard Jones, Cyng Lowri Ann James a'r Clerc i fynychu Ysgol yr Hendre

Clerc i Gysylltu a Dafydd Gibbard neu Geraint Owen yn Cyngor Gwynedd i drefnu dyddiad cyfleus

Materion y Clerc

- Gohebiaethau
 - Prydles Canolfan Penrhos – Cwmni Cyfreithwyr Gamlins wedi cadarnhau fod y brydles wedi eu cyrraedd a'u bod yn argymhell ei arwyddo mor fuan a phosib, fel y gellir ei anfon yn ol i Cyngor Gwynedd. Cytunwyd yn unfrydol i hynny ddigwydd. Gan mae Cyng D JM a LAJ ynghyd a'r Clerc, oedd wedi bod yn ymdrin a'r cyfreithwyr yn y gorffennol **cytunwyd iddynt barhau i wneud hynny ar ran y Cyngor ag ychwanegu y Cadeirydd atynt**
 - Ymaelodi a Unllais **Cytunwyd ail ymaelodi ar gost o £361**
- Adroddiadau
 - Ysw y goeden i'r fynwent Cwmni Ysw wedi cysylltu yn holi os oedd datblygiad ynglyn a'r costau. **Clerc wedi cadarnhau fod Ysw yr Eglwys yn ymgymeryd a'r taliadau ond ei fod yn awyddus i gadw'r cais yn 'agored'**
 - Cyfarfod Swyddogion Gwynedd ynglyn a torri gwair ychwanegol Y Clerc wedi cael cyfarfod gyda Mr Geraint Hughes. Cyllid y Cyngor Sir bellach ond yn cyfro cost torri yn unig. Cadarnhawyd ein bod yn awyddus i barhau hefo'r casglu hefyd ag yn sgil hynny byddai angen talu **cyfystur a 4 toriad a haner** flwyddyn yma. Cost 2017-18 oedd £1154.88 + TAW = £1385.86 **Clerc i ofyn am gadarnhad cytundeb ysgrifenedig**

Materion y Cynghorwyr

Cynrig Hughes Biniâu Halen ardal Pentir

Er i'r mater gael ei drafod yn yr Is bwyllgor asedau – ag i ni ddioddef tywydd gaeafol iawn yn ystod y ddau fis dwaetha cytunwyd gohirio tariffodaeth bellach ar y mater yma heno ond ei godi yn y cyfarfod nesaf

Daeth y cyfarfod i ben 9.15

Cyngor llawn nesaf 12fed o Ebrill